



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Perfformiad

Dyddiad: Dydd Mercher, 28
Mawrth 2012

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD, DYDD IAU, 5 EBRILL 2012 am 9.30 am yn YSTAFELL PWYLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN YMA O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw ddiddordeb personol neu ragfarnol mewn unrhyw fusnes a nodir i'w ystyried yn y cyfarfod.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100(B)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar ddydd Iau 23 Chwefror 2012 (copi ynghlwm).

5 APELIADAU CYNLLUNIO (Tudalennau 17 - 38)

Ystyried adroddiad y Rheolwr Rheoli Datblygu a Chydymffurfiad (copi ynghlwm) sy'n rhoi dadansoddiad manwl o'r holl benderfyniadau ar apelïadau cynllunio a wnaed o Ebrill 2011 hyd at heddiw er mwyn i'r Aelodau gael archwilio'r achosion unigol.

9:45am - 10:15am

6 ADRODDIAD CYLLID 2011/2012 (Tudalennau 39 - 76)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) ar fonitro perfformiad y Cyngor yn erbyn ei strategaeth gyllidebol ar gyfer 2011/12 fel sydd wedi'i diffinio yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

10:15am - 10:45am

EGWYL

10:45am - 11.00am

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 77 - 92)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygu blaen raglen waith y pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

11:00am - 11:30am

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf oddi wrth gynrychiolwyr Pwyllgorau gwahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

RHAN II – EITEMAU CYFRINACHOL

Argymhellir gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, tra bo'r eitem(au) busnes canlynol yn cael ei drafod, gan eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir hi ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol.

9 MONITRO'R RHAGLEN GYFALAF (Tudalennau 93 - 122)

Ystyried adroddiad cyfrinachol y Pennaeth Cyllid ac Asedau a'r Cyfrifydd Rheolaeth (copi ynghlwm) ar archwilio a monitro Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

11:30am - 12pm

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Peter Duffy
Michael Eckersley
Gwilym Evans
Bobby Feeley
George Green
Ian Gunning

Colin Hughes
Rhys Hughes
Huw Jones
David Lee
Lucy Morris

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun dydd Iau 23 Chwefror 2012 am 9:30 a.m.

PRESENNOL

Cynghorwyr R.L. Feeley (Cadeirydd), G.C. Evans, I.A. Gunning, C. Hughes, T.R. Hughes, H.L. Jones a L.M. Morris

Roedd Aelod Arweiniol Adfywio a Thwristiaeth ac Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy'n mynychu ar gais y Pwyllgor ac roedd y Cynghorydd M.L. Davies yn mynychu fel arsyllwr.

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (AS), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Rheolwr Gwella Corfforaethol (TW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PMcG), Prif Reolwr Ynni (RJ), Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (GB), Rheolwr Busnes a Pherfformiad (EW), Swyddog Gwella Corfforaethol (EMcW), Pennaeth Gwasanaethau Tai (PMcH), Swyddog Strategaeth Tai (SL), Uwch Syrfêwr Meintiau (HC), Pennaeth Llyfrgelloedd, Archifau a'r Celfyddydau (AJ), Cydlynnydd Craffu (RE) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (RAH).

1. YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr P.C. Duffy, M.J. Eckersley a D.W. Lee a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Trawsnewid Busnesau ac Adfywio (BJ)

2. DATGANIADAU BUDD

Ni ddatgelwyd unrhyw fudd personol nac un oedd yn dangos rhagfarn mewn unrhyw eitem fusnes.

3. MATERION BRYN FEL Y CYTUNWYD GYDA'R CADEIRYDD

Tynnwyd sylw at erthygl a gyhoeddwyd yn y Rhyl Journal yr wythnos honno oedd yn dweud bod datblygwr y prosiect Ocean Plaza yn torri'n ôl ar ei gynlluniau ar gyfer ail-ddatblygu cyn safle ffair y Rhyl. Ystyriwyd bod hwn yn fater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Awgrymodd y Cynghorydd T.R. Hughes y gallai hyn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor i ddenu buddsoddiad o fewn prosiect Harbwr y Foryd. Nododd y Pennaeth Cyllid ac Asedau mai menter breifat oedd y prosiect Ocean Plaza ac y byddai prosiectau o'r fath bob amser yn cario rhywfaint o risg. Dywedodd yr Aelod Arweiniol dros Adfywio a Thwristiaeth wrth y pwyllgor fod Rheolwr Prosiect Rhyl yn Symud Ymlaen mewn trafodaeth gyson gyda'r datblygwyr.

Tynnodd y Cyngorydd G C Evans sylw at effaith posibl y torri'n ôl ar y datblygiad ar bolisi a strategaeth dai'r Cyngor ar gyfer gorllewin y Rhyl gan y byddai llai o unedau tai fforddiadwy'n cael eu hadeiladu yn yr ardal petai'r prosiect yn cael ei dorri'n ôl neu'n cael ei ohirio. Gofynnodd yr Aelodau am i'r mater gael ei ddwyn i sylw'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Trawsnewid Busnesau ac Adfywio gyda chais am i aelodau etholedig gael briff am y datblygiadau diweddaraf yng nghyfarfod y Cyngor yr wythnos ganlynol.

4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd dydd Iau 12 Ionawr 2012.

Materion yn codi:-

Pryderon yn ymwneud ag ysgol leol - codwyd hyn fel eitem frys o fewn busnes Rhan II yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor a derbyniodd yr aelodau friff am y datblygiadau oedd yn gyfrinachol. Roedd y Cadeirydd wedi siarad â'r Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant yn ddiweddar ac roedd yn hyderus fod materion erbyn hyn o dan reolaeth.

Canlyniadau arholiadau Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl -16 - Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod Estyn wedi gorffen ei Arolwg a'i bod yn annhebygol y byddai darganfyddiadau'r arolygwyr a'r adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi cyn yr etholiadau llywodraeth leol ond bod yr arwyddion cynnar yn bositif.

PENDERFYNWYD – *derbyn y Cofnodion a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD - *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol oherwydd eu bod yn debygol y gellid datgelu gwybodaeth eithriadol fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12, 13 ac 14 Rhan 4 Trefnlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

RHAN II

Roedd y Pwyllgor yn trafod busnes Rhan II dros dro er mwyn i'r Cydlynnydd Craffu allu cyflwyno diweddariad cyfrinachol ar y datblygiadau wrth ddelio â chyflwr gwael yr A5104 ger Neuadd Bodidris, Llandegla a'r rhesymau dros yr oedi i wella'r A494 yng Ngwyddelwern oedd wedi'u trafod yn y cyfarfod blaenorol.

RHAN I

5. DIWEDDARIAD AR EFFEITHIOLRWYDD YNNI

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau (HoFA) adroddiad oedd yn rhoi trosolwg o gynnydd y Cyngor wrth leihau treigladd ynni a bod yn fwy ynni

effeithiol yn dilyn pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad am berfformiad y Cyngor wrth gyflawni targedau o fewn y Cynllun Corfforaethol (EEF002).

Dyweddodd yr HoFA fod derbyn darlenniadau cywir mesuryddion safleoedd wedi cynyddu o 30% ym mis Ebrill 2011 i dros 80% ym mis Ionawr 2012, a bod defnyddio trydan rhwng mis Ebrill 2011 a mis Rhagfyr 2011 wedi lleihau o 13%, a defnyddio nwy wedi lleihau o 24%. Ystyriwyd na ellid rheoli sancsiynau mewnol arfaethedig a phriodolwyd y gwelliant mewn effeithiolrwydd ynni yn bennaf at well gweithdrefnau cadw tŷ, er enghraifft, y £6,000 o arbedion mewn costau ynni a wireddwyd oherwydd gwell arferion ym Mhafiliwn Rhyngwladol Brenhinol Llangollen. Ymchwiliwyd i waith cyfalaf ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy a chytunwyd gyda E.ON Energy Solutions i ddarparu bwyler biomas ar gyfer Canolfan Hamdden y Rhyl gyda'r ynni a gynhyrchir gan y bwyler i'w brynu gan y Cyngor. Byddai hyn yn rhoi brasamcan o arbedion blyneddol o £5,000. Dywedwyd hefyd bod y Cyngor yn perfformio'n dda wrth leihau cynhyrchu carbon gyda ffigyrau oddi wrth Arolwg Rheoli Carbon Llywodraeth Leol yn dangos bod tair o'r pedair Canolfan Hamdden Wleob a gynhelir gan y Cyngor yn y chwarter isaf o safbwynt y cyfaint o garbon oedd yn cael ei gynhyrchu.

Yn dilyn ystyriaeth y Cabinet ym mis Ionawr o bryderon y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar berfformiad y Cyngor yn y maes hwn, cyflwynwyd ystod o gynigion i'r Uwch Dîm Arwain (SLT) i barhau i wella perfformiad wrth ddefnyddio ynni'n effeithiol:

- Datblygu ymwybyddiaeth gorfforaethol;
- Gwelliant parhaus mewn arferion cadw tŷ;
- Canfod adeiladau sy'n perfformio'n wael;
- Ymchwilio i lwybrau posibl i ddenu buddsoddiad allanol mewn cynlluniau ynni; ac
- Ail-fuddsoddi arbedion o effeithiolrwydd ynni i gynlluniau arbed ynni eraill

Gofynnodd y Cynghorydd G.C. Evans pa mor gywir oedd y ffigyrau, yn arbennig o safbwynt y defnydd o drydan mewn adeiladau gwag a safleoedd sy'n cael eu rhannu e.e. ysgolion oedd yn cael eu defnyddio hefyd fel cyfleusterau yn y gymuned ac a oedd ail-dâl yn cael ei godi ar denantiaid y Cyngor am eu trydan. Cadarnhaodd y Prif Reolwr Ynni fod cyfuniad o ymagweddau ar gyfer ail-godi tâl ond bod costau trydan y Cyngor yn cael eu trosglwyddo i denantiaid ac y byddai ffigyrau mwy cywir a diweddar ar gael ym mis Ebrill.

Tynnodd y Cynghorydd L.M. Morris sylw at Atodiad 4 oedd yn rhestru gwaith gwella oedd wedi'i wneud ar eiddo'r Cyngor a nododd mai prosiectau cost isel oedden nhw'n bennaf gyda throsiad sydyn ar gyfer arbedion a gofynnodd pa gynlluniau oedd ar y gweill ar gyfer prosiectau mwy a fyddai'n rhoi adenillion dros gyfnod hwy. Dywedodd yr HoFA y byddai prosiectau'r dyfodol yn dibynnu ar lwyddiant prosiectau fel y bartneriaeth gyda E.ON Energy Solutions yng Nghanolfan Hamdden y Rhyl, ond bod y Cyngor yn

awyddus i ymgysylltu gyda chyflenwyr ac i elwa o'u harbenigedd wrth wireddu prosiectau fyddai'n gyraeddadwy gyda'r buddsoddiad lleiaf.

Awgrymodd y Cynghorydd I.A. Gunning y gellid echdynnu'r gwres a gynhyrchwyd gan y maes parcio tanddaearol yn y Rhyl a'i ddefnyddio i wresogi adeiladau'r Cyngor gerllaw ym Mhentref y Plant. Derbyniodd yr HoFA y gellid ymchwilio i'r syniad ar ôl cwblhau prosiect Ysgol Uwchradd y Rhyl ond y byddai'n rhaid i unrhyw brosiect fod yn ddibynnol ar broses dendro cyn dechrau ar unrhyw waith. Ychwanegodd y Cynghorydd M.L. Davies ei fod wedi gweld goleuadau'n cael ei gadael ynghyn min nos yn Neuadd y Sir ac nad oedd y system o oleuadau awtomatig yn effeithiol. Dywedodd y Prif Reolwr Ynni fod hyn oherwydd diffyg ymwybyddiaeth y staff a dywedodd fod mesurau'n cael eu cymryd i wella dealltwriaeth pwysigrwydd effeithiolrwydd ynni aelodau'r staff.

Cymeradwyodd y Cadeirydd ac aelodau eraill yr ymagwedd lle'r oedd mwy o ffocws ar arbed ynni oedd wedi'i fabwysiadu a nododd y gwelliannau mawr a wnaed.

PENDERFYNWYD - *nodi'r adroddiad a'r cynnydd a wnaed o safbwynt amcanion arbed ynni'r Cyngor a chefnogi'r mesurau arfaethedig sy'n cael eu datblygu i wella gwelliannau mewn lleihau carbon ac effeithiolrwydd ynni.*

6. GWASANAETHAU CYNLLUNIO, ADFYWIO A RHEOLEIDDIO

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (HoPRRS) adroddiad oedd wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod. Roedd yn crynhoi perfformiad meysydd penodol o fewn y gwasanaeth ac yn gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar faterion yn ymwneud â pherfformiad.

Cynllun Datblygu Lleol (LDP) - Cyflwynodd yr HoPRRS ddiweddariad i'r Pwyllgor am y cynnydd diweddar wrth weithredu'r LDP oedd wedi bod yn y cyfnod 'Archwilio yn Gyhoeddus' ers 10 Ionawr 2012 ac a fbyddai'n dod i ben gydag adroddiad annibynnol o argymhellion yr Arolygwr Cynllunio. Disgwylir hwn ym mis Awst 2012 a byddai'n rhaid i'r Cyngor ei dderbyn yn ffurfiol. Pwnc trafod allweddol oedd cyfiawnhad y Cyngor dros beidio â chyflawni targed twf tai Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021. Hefyd, sefydlwyd Grŵp Llywio LDP i fonitro'r cynnydd gyda'r LDP.

Amheuwyd cyfansoddiad a swyddogaeth Grŵp Llywio'r LDP ac eglurodd yr HoPRRS rôl benodol y grŵp. Eglurwyd ymhellach fod y targedau ar gyfer datblygu tai a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn dibynnu ar y farchnad dai gan na allai'r Cyngor wneud dim ond clustnodi tir ar gyfer datblygu. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am eglurhad ar rôl yr Arolygwr a chyfanrwydd yr LDP. Dywedwyd bod yr Arolygwr yn penderfynu ar hyfywdra'r LDP ar ôl i'r Cyngor Sir ei dderbyn a gall wneud mân newidiadau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu derbyn. Cadarnhawyd bod gan yr Arolygwr y gallu i fynnu bod y targed ar gyfer adeiladu tai newydd yn cael ei godi ond roedd rhestr o safleoedd posibl a rhai eraill i fod wrth gefn wedi'u nodi a'u cymeradwyo os byddai angen hyn.

Ar y cyfan, roedd yr Arolygwr yn ymddangos yn fodlon gyda chynllun DCC felly ni ystyriwyd y gellid cyfiawnhau'r ofnau y byddai'r LDP yn cael ei wrthod ar unwaith, fel oedd wedi digwydd gydag LDP Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ar hyn o bryd.

Grantiau ar gyfer Cyfleusterau i'r Anabl - Roedd DFGs yn un o'r gofynion statudol o fewn Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 sy'n darparu ar gyfer addasiadau i roi mwy o ryddid i bobl anabl symud yn eu cartrefi eu hunain. Roedd DCC wedi gwario dros £6.6m dros y 5 mlynedd ddiwethaf yn sicrhau DFGs, ac roedd symudiad i symleiddio prosesau wedi gweld gostyngiadau sylweddol yn yr amser a gymerwyd i sicrhau newidiadau.

Dywedodd y Cynghorydd L.M. Morris fod y gostyngiad yn yr amser a gymerwyd i wneud yr addasiadau angenrheidiol yn ddangosydd positif ond na fyddai dangosyddion yn berthnasol os oedd pobl yn ymarferol yn gorfod aros am gyfnodau hir i gael eu hasesu er mwyn cael addasiadau wedi'u gwneud i'w cartrefi. Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y gallai ei adran archwilio'r dangosyddion oedd yn cael eu defnyddio i sicrhau bod mesurau perfformiad yn ddibynadwy, bod y diffiniadau ar gyfer amseroedd aros e.e. ar gyfer amseroedd dechrau a gorffen asesiadau/ addasiadau cyntaf yn gyson ar draws awdurdodau ac felly'n rhoi cymariaethau dilys.

Ysbyty Gogledd Cymru - Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar gynnydd y gwaith sy'n cael ei wneud i gynnal Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych a'r anawsterau oedd wedi codi o'r prosiect. Roedd DCC wedi rhoi Rhybudd Gwaith Brys yn erbyn y cwmni all-draeth sef perchennog safle'r ysbyty i wneud gwaith hanfodol i atal to'r adeilad rhag disgyn a gwaith cynnal a chadw hanfodol brys arall. Gan na chafwyd unrhyw ymateb, arwyddodd y Cyngor gcontract i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud i arbed yr adeiladau ac wedi rhoi dau rybudd o fewn s.55 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i gael ad-daliad o £250k am y gwaith brys. Ni chafwyd unrhyw gydnabyddiaeth. Brasamcanwyd y byddai cost derfynol y gwaith i'w wneud yn £850k.

Gan nad oedd DCC am fod yn berchennog y safle, roedd hyfywdra creu Cerbyd Un Pwrpas (SPV) yn cael ei ystyried fel opsiwn er mwyn rhoi Rhybudd Trwsio yn erbyn safle'r ysbyty. Roedd ymgynghori gydag Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog wedi arwain at y cynnig o sefydlu Ymddiriedolaeth Cadw Adeiladau fel y Cerbyd Un Pwrpas os byddai'n rhaid i'r Cyngor wneud cais am Orchymyn Prynu Gorfodol a datblygu prosiect ar gyfer y safle ar sail cynllun meistr a fabwysiadwyd. Nodwyd hefyd bod ymholiadau eraill wedi'u gwneud o'r sector preifat a bod un datblygwr wedi bod yn hynod frwdfrydig ar ôl cyfarfod gyda Swyddogion DCC.

Trafododd y pwyllgor yn fwy manwl realaeth denu buddsoddiad gan y sector preifat a chynnydd y trafodaethau. Cadarnhaodd yr HoPRRS os byddai Gorchymyn Prynu Gorfodol yn angenrheidiol na fyddai'r costau'n uchel gan fod yr adeiladau erbyn hyn yn cael eu hystyried fel ecwiti negyddol. Gofynnodd y Cynghorydd T.R. Hughes a oedd amgylchiadau'r prosiect yn rhoi cynlluniau ar gyfer tai cymdeithasol mewn perygl a chafodd ei hysbysu

y byddai'n well cael cynigion mwy enillfawr gan ddatblygwyr er mwyn gallu ail-fuddsoddi'r elw i gynnal a chadw'r adeiladau.

Gorfodaeth – Derbyniodd y Pwyllgor grynodedb byr o'r meysydd cyfrifoldeb oedd yn elfen reoleiddio o'r Gwasanaeth oedd yn cynnwys lechyd Anifeiliaid, Diogelwch Bwyd a lechyd a Diogelwch, Gorfodaeth Tai, Llygredd a lechyd y Cyhoedd a Safonau Masnach. Edrychwyd ar waith y tîm Gorfodi Diogelwch y Gymuned yn fwy manwl a chafwyd crynodeb o ddatblygiadau diweddar y tîm oedd yn cynnwys

- Cyflwyno profion MOT gorfodol ar Adran Fflyd y Cyngor ei hun ar gyfer pob tacsî sy'n cael trwydded gan yr Awdurdod
- Gostwng troseddau oherwydd alcohol yn Sir Ddinbych a Chonwy
- Sicrhau addysg am beryglon ysmegu mewn ysgolion
- Y cyflwyniad a anfonwyd at y Cyngor Sir i'w gymeradwyo i gyflwyno Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Penodedig wedi'u targedu at ddelio â'r cynnydd mewn cwynion sy'n ymwneud ag yfed yn y strydoedd
- Cynnydd yn y nifer o rybuddion cosb sefydlog ar gyfer troseddau amgylcheddol
- Adolygu strwythur staffio ar gyfer Gorfodaeth Cynllunio

Mynegodd y Cadeirydd bryder am y lefel o ymgysylltu gyda gyrwyr tacsîs a phriodolodd yr HoPRRS yr anfodlonrwydd ymhlith gyrwyr tacsîs i'r gofynion MOT newydd ond dywedodd fod hwn wedi bod yn fesur angenrheidiol. Mynegodd y Cynghorydd T.R. Hughes hefyd bryderon am y tacsîs oedd yn gweithredu yn Sir Ddinbych oedd wedi cael eu trwyddedu mewn siroedd eraill ac felly nad oedd yn cyflawni safonau DCC. Cadarnhaodd yr HoPRRS fod unrhyw dacsî oedd yn cludo plant ysgol angen trwydded ond byddai hefyd angen cymeradwyaeth ffurfiol gan Adran Cludiant Ysgolion DCC a chael gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB). Fodd bynnag, nid oedd gan DCC y pŵer i orfodi ei safonau ar dacsîs eraill oedd yn gweithredu yn Sir Ddinbych os oedden nhw wedi'u trwyddedu gan awdurdodau eraill.

Apeliadau - Cafodd y Pwyllgor drosolwg o apeliadau cynllunio rhwng 2007 a 2011, oedd yn cynnwys cynnydd arwyddocaol yn y gyfran o apeliadau llwyddiannus gyda 53% o apeliadau wedi'u caniatáu yn 2010/2011. Gellid apelio drwy Lysoedd yr Ynadon am benderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Trwyddedu oedd yn ymwneud ag eiddo a thacsîs ac yn y 5 mlynedd ddiwethaf dim ond 2 apêl arwyddocaol oedd wedi'u cyflwyno.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd rheswm dros y cynnydd mewn apeliadau cynllunio llwyddiannus gan awgrymu bod y gyfradd o apeliadau llwyddiannus yn dangos y gallai'r system wreiddiol fod yn ddiffygiol. Dywedodd yr HoPRRS nad oedd unrhyw reswm arbennig am y gyfradd lwyddiant gynyddol o apeliadau cynllunio ond cydnabu y gallai'r broses o wneud penderfyniadau elwa o graffu pellach.

Ail-ddefnyddio tai gwag- Cyflwynwyd ffigyrau i'r Pwyllgor gyda manylion perfformiad y Cyngor dros y 6+ blynedd ddiwethaf i ail-ddefnyddio anheddau gwag yn y sector preifat. Yn 2010/2011, ail-ddefnyddiwyd 154 o'r 913 eiddo preswyl gwag ar draws Sir Ddinbych (16.87%), oedd yn cymharu'n ffafriol

gyda chanolrif Cymru o 3.59% a'r 3ydd perfformiad gorau yng Nghymru. Nodwyd bod y data ar draws Cymru'n cynnwys anghysondebau sylweddol yn y nifer o dai gwag, felly roedd rhywfaint o amheuaeth am werth data cymharol ond roedd yr HoPRRS yn hyderus bod y Gwasanaeth yn perfformio'n dda yn y maes hwn.

Cydnabu'r Cynghorydd C. Hughes y perfformiad cryf yn 2010/2011, ond gofynnodd pam bod llai o eiddo wedi'u hail-ddefnyddio nag yn 2009/2010. Priodolodd y Rheolwr Perfformiad Busnes y gostyngiad i'r ffaith bod y Cyngor wedi gallu cyflawni nifer mawr o brosiectau sydyn ar raddfa fechan i ail-ddefnyddio eiddo ar ddechrau'r prosiect a bod y gwaith a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn fwy cymhleth. Ychwanegodd yr Aelod Arweiniol dros Adfywio a Thwristiaeth fod colli arian LIC ac anawsterau wrth leoli perchnogion eiddo gwag hefyd wedi gwneud gwaith adfywio'n fwy anodd.

Tai amlfeddiannaeth - Eglurwyd mai Tŷ Amlfeddiannaeth (HMO) oedd eiddo lle'r oedd nifer o feddianwyr yn rhannu cyfleusterau neu unedau hunangynhaliol e.e. tŷ mawr wedi'i rannu yn fflatiau hunangynhaliol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor er bod HMOs yn cael eu rheoli o safbwynt cynllunio, adeiladu a thrwyddedu bod nifer o'r 366 HMO a frasmcanwyd oedd yn Sir Ddinbych, heb eu trwyddedu. Roedd y Cyngor wedi atafaelu HMO didrwydded yn y Rhyl o fewn Gorchymyn Rheolaeth Interim ym mis Medi 2011 ac wedi llwyddo i erlyn dau landlord arall oedd yn rhedeg HMOs yn ddirwydded yng Ngorllewin y Rhyl.

Cynllun Ariannol ar gyfer Adfywio'r Rhyl - Hysbyswyd y Pwyllgor o ailstrwythuro Tîm Symud Ymlaen y Rhyl sy'n canolbwyntio ar Ardal Adfywio Gorllewin y Rhyl, Twristiaeth a'r Arfordir a Chymdogaethau. Roedd yr adroddiad wedi gofyn i'r Pwyllgor benderfynu a ddylid cynhyrchu adroddiad ar wahân er mwyn craffu'r prosiect Symud Ymlaen y Rhyl yn fwy manwl ond dywedodd y Cydlynnydd Craffu wrth y Pwyllgor fod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi penderfynu'n barod i ddyrannu craffu'r prosiect i'r Pwyllgor Craffu Partneriaeth gyda Strategaeth Gorllewin y Rhyl yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at y 'cynnig dros wella' y prosiect Symud Ymlaen y Rhyl a dderbyniwyd o Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn argymhell:

"Y dylai'r Cyngor sefydlu sut bydd yn cefnogi'r cynllun cyflawni'r RGF erbyn mis Medi 2012, gan gynnwys:

- Dangos sut mae'n gweddu i raglen adfywio'r Sir
- Cadarnhau'r adnoddau fydd ar gael er mwyn i'r staff sicrhau cefnogaeth i gyflawni
- Trefniadau ar gyfer gwerthuso cynnydd yn gyfnodol"

Ychwanegodd y pennaeth Gwasanaethau Busnes, Cynllunio a Pherfformiad fod Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnig rhywfaint o graffu i'r prosiect ond byddai'n rhaid cyfategoli hyn gan drefniadau craffu DCC ei hun.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor:

- a) yn nodi'r datblygiadau diweddaraf ar draws y Gwasanaeth; ac
- b) yn argymhell bod craffu pellach yn cael ei wneud ar apelïadau cynllunio; gorfodi cynllunio; trwyddedu tacsis ac adfywio'r Rhyl

Gadawodd y Cynghorydd I A Gunning y cyfarfod ar yr adeg hon

**7. MONITRO PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL 2011-12
CHWARTER 3**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwella Corfforaethol (CIM) adroddiad oedd wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod. Roedd yn rhoi crynodeb o berfformiad yn 2011-12 yn erbyn Cynllun Corfforaethol y Cyngor, Dangosyddion Perfformiad (PIs) a Chofrestr y Prosiect Corfforaethol.

- Roedd y wybodaeth flynyddol fwyaf diweddar am berfformiad yn erbyn dangosyddion 2012 yn dangos gwelliannau sylweddol o waelodlin 2008-09 y Cynllun Corfforaethol ond nad oedd perfformiad yn erbyn 3 o'r prif ddangosyddion yn debygol i ragori ar ganolrif Cymru yn 2011-12.
- Roedd perfformiad yn erbyn canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol yn gyffredinol bositif ond nid oedd targedau wedi'u cyflawni o safbwynt canlyniadau'n ymwneud ag amcanion gwella wrtg gyflawni anghenion pobl hŷn ac anabl, delio ag ardaloedd difreintiedig a gostwng y risg o lifogydd.
- Ar y Gofrestr Prosiect Corfforaethol nodwyd Harbwr y Foryd ac Ysgol Dyffryn Iâl fel rhai â hyder cyflawni Coch neu Goch/ Melyngoch
- Roedd canlyniadau'n mesur perfformiad wrth Ddiogelu Plant ac Amddiffyn Plant yn niwtral gyda statws 'Coch' yn cael ei nodi ym mhrydlondeb adolygiadau cynllun Plant mewn Angen, ar gyfer ymweliadau Plant sy'n Derbyng Gofal o fewn rheoliadau ac mewn lefelau absenoldeb salwch staff.
- Roedd perfformiad yn erbyn dangosydd Diogelu Oedolion Bregus (POVA) ar gyfer Q3 2011 yn dangos bod 87.2% o achosion POVA yn dangos bod y risg i oedolion mewn risg wedi'i ddiddymu neu wedi'i ostwng.
- Roedd DCC mewn perygl o golli hyd at £250k o arian gan Grant Cytundebau Canlyniadau Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar sut byddai perfformiad y Cyngor yn cael ei ddehongli o fewn system mesur perfformiad pwyntiau'r cynllun. Roedd mwyafswm o £1m ar gael ond byddai hwn yn cael ei ostwng os byddai sgôr is na 25/30 yn cael ei nodi ar draws y canlyniadau amrywiol.

Cydnabu'r Pwyllgor fod y Cyngor wedi gwella ei berfformiad yn gyson yn erbyn y mwyafrif o ddangosyddion perfformiad ond bod pryderon am y dangosyddion sydd ar hyn o bryd yn cofrestru statws RAG 'Coch', y rhai oedd ar hyn o bryd yn perfformio'n is na chanolrif Cymru a'r rhai oedd yn delio â pherfformiad ym meysydd diogelu ac amddiffyn plant.

Mynegodd y Pwyllgor bryder arbennig am y risg i'r Cyngor o golli hyd at £250K o'r Grant Cytundeb Canlyniadau 2011/12 oherwydd bod 6 o'r 10 Cytundeb Canlyniadau rhyngddo a Llywodraeth Cymru yn cofrestru'n is na'r targed perfformiad ac mewn risg o fod yn destun terfyniadau ariannol. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod nifer o'r cytundebau hyn yn cael eu cyflawni mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill ac felly nid yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor, a bod ffactorau y tu hwnt i reolaeth leol, fel yr hinsawdd economaidd, hefyd yn effeithio ar bŵer yr Awdurdod i gyflawni'r canlyniadau disgwylidig, y farn oedd y dylid tynnu sylw'r Cabinet at y pryderon am y rhain. Dylid annog y Cabinet a'r swyddogion i sicrhau bod pob mesur posibl wedi'i gymryd i leihau'r risgiau i'r Cyngor o golled ariannol o'r Grant oherwydd unrhyw ddiffyg gweithredu ar ei ran. Eglurodd y CIM fod dangosyddion yn dangos statws 'Coch' yn amlygu problemau sydd wedyn yn cael eu dwyn i sylw'r Penaethiaid Gwasanaethau perthnasol sy'n gyfrifol am ddelio â pherfformiad gwael.

Cynigiwyd y dylid argymhell bod y Pwyllgor newydd, ar ôl etholiadau'r awdurdod lleol, yn sefydlu gweithgor fyddai'n cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Tîm Gwella Corfforaethol a'r Pennaeth Archwilio Mewnol i drafod unrhyw feysydd pryder a nodwyd am berfformiad y Cyngor yn erbyn dangosyddion perfformiad a Chytundebau Canlyniadau er mwyn monitro'n fanylach ac ymateb i ddiffygion.

PENDERFYNWYD –

- a) bod y Pwyllgor yn nodi'r meysydd a amlygwyd lle nad oedd yn debygol y byddai targedau perfformiad yn cael eu cyflawni;*
- b) bod y Pwyllgor yn argymhell bod pryderon y Pwyllgor am faterion perfformiad, yn arbennig y posibilrwydd bod y Cyngor yn mynd i golli'r Grant Cytundebau Canlyniadau yn cael ei gyflwyno i sylw'r Cabinet; a*
- c) bod y Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad newydd, yn dilyn etholiadau awdurdod lleol 2012, ei fod yn sefydlu gweithgor, yn cynnwys pedwar aelod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad i gyfarfod yn rheolaidd gyda Phennaeth Archwilio Mewnol a phersonél y Tîm Gwella Corfforaethol er mwyn monitro perfformiad yn erbyn y dangosyddion a'r cytundebau y cytunwyd arny'n nhw.*

8. COFRESTR RISGIAU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y CIM adroddiad oedd wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod ac a oedd yn rhoi manylion datblygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol newydd ac yn rhoi diweddariad ar y risgiau a nodwyd a'r mesurau oedd wedi'u cymryd i leihau'r risgiau hyn, dros y cyfnod 2011-2012.

Roedd pob cofrestr risg y gwasanaethau wedi'u hadolygu gan y gwasanaethau cyn rownd olaf y cyfarfodydd Herio Perfformiad y Gwasanaethau yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2011 ac roedd y Tîm Gwella Corfforaethol wedi canfod unrhyw risgiau o arwyddocâd corfforaethol neu unrhyw themâu risg oedd yn ymddangos ar draws gwasanaethau. Rhwng Rhagfyr a Ionawr, roedd y Rheolwr Gwella Corfforaethol wedi cyfarfod y Prif Weithredwr ac aelodau unigol y Tîm Gweithredu Corfforaethol (CET) er mwyn canfod risgiau corfforaethol, trafod camau gweithredu

arfaethedig a chytuno ar amserlenni a pharatowyd drafft terfynol y Gofrestr ar gyfer cyfarfod yr Uwch Dîm Arwain (SLT) ar 2 Chwefror i ganiatáu am newidiadau terfynol. Cyflwynwyd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol newydd i'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol ar 8 Chwefror. Bydd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei hadolygu'n ffurfiol gan y CET dwy waith y flwyddyn yn dilyn pob rownd o Herio Perfformiad y Gwasanaethau a bydd yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adran Archwilio Mewnol y Cyngor.

Cafwyd diweddariad o lefel bresennol risg ym mhob un o'r categorïau a nodwyd o fewn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a nodwyd lefel gritigol:

- y risg o gamgymeriad diogelu difrifol lle mae gan y Cyngor gyfrifoldeb drosto
- y risg na fyddai'r DCC yn gallu datblygu gallu'r staff a'r rheolwyr i gyflawni'r agenda newid
- y risg bod yr amser a'r ymdrech a fuddsoddwyd mewn cydweithio'n anghymesur i'r buddion a wireddir
- y risg bod yr amgylchedd economaidd yn gwaethygu y tu hwnt i ddisgwyliadau presennol gan arwain at alw ychwanegol ar wasanaethau a llai o incwm
- y risg nad yw ICT strategol yn galluogi gwelliant nac yn cefnogi newid
- y risg bod portffolio asedau'r DCC yn datblygu'n rhwystr i gynllunio strategol na ellir ei reoli

Roedd y Pwyllgor yn hynod o bryderus am y ffaith bod y risg o gydweithio aneffeithiol yn cael ei nodi fel 'critigol' ac roedd yn amheus am ba mor llwyddiannus roedd prosiectau ar y cyd wedi bod. Eglurwyd cydweithio rhwng awdurdodau fel gofyn gorfodol Llywodraeth Cymru ac y byddai'r prosiect yn cymryd tipyn o amser cyn gwireddu'r buddion. Dywedodd y CIM fod yr asesiad risg yn arbennig o lym am wendidau'r Cyngor ond y byddid yn edrych yn fanwl ar unrhyw broblemau a nodwyd.

Roedd y Pwyllgor yn amau dyfnder y Gofrestr Risgiau a gofynnwyd a oedd pob agwedd o reolaeth DCC yn cael eu hystyried wrth lunio'r risgiau. Sicrhaodd y pennaeth Cynllunio Busnesau a Pherfformiad y Pwyllgor fod pob gwasanaeth yn cael ei ystyried, hyd yn oed os na fydd pob agwedd o waith y Cyngor yn cael ei enwi'n benodol. Ond os bydd y Pwyllgor yn teimlo bod unrhyw risgiau wedi'u hanwybyddu yna byddai'r Tîm Gwella Corfforaethol yn dymuno gwybod. Amlygodd y Cynghorydd G.C. Evans y risg posibl oherwydd y cysylltiad agos rhwng aelodau a swyddogion/ Aelodau Arweiniol Craffu yn y broses o Herio Perfformiad y Gwasanaeth a'r casgliadau y gellid dod iddyn nhw oherwydd cyfranogiad agos craffu mewn fforwm nad oedd yn gyhoeddus lle nad oedd y cofnodion/ nodiadau ar gael yn gyffredinol a heb fod ar gael i'r cyhoedd.

PENDERFYNWYD—

- a) *bod y Pwyllgor yn nodi ac yn cadarnhau'r camau arfaethedig a restrwyd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol i ddelio â'r risgiau a nodwyd;*

- b) *bod cynnydd o safbwynt gweithredu'r camau y cytunwyd arnyn nhw'n cael ei gynnwys drwy eithriad mewn adroddiadau perfformiad chwarterol yn y dyfodol; a*
- c) *bod gweithdy hyfforddi'n cael ei sefydlu i sicrhau bod Cynghorwyr newydd eu hethol yn deall pwrpas y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.*

9. GWASANAETHAU TAI

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai (HHS) adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) oedd yn rhoi diweddariad ar berfformiad y Gwasanaethau Tai o safbwynt cyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru (WHQS); rhestrau aros a dyraniadau; cytundebau tenantiaeth; a diffygion talu rhent. Gofynnwyd I'r Pwyllgor roi sylwadau ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn y meysydd hyn a hefyd i ystyried potensial y prosiect Un Llwybr Mynediad Sengl I Dai (SARTH).

Cyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru (WHQS)

Cafwyd diweddariad oedd yn rhoi manylion cynnydd wrth gyflawni'r WHQS a'r gwaith a gynlluniwyd i sicrhau bod eiddo o safon cenedlaethol. Rhoddwyd mwy o wybodaeth oedd yn dangos y buddion adfywio ehangach y byddai'r gwaith yn eu sicrhau a 90%+ boddhad tenantiaid gyda gwelliannau. Roedd y papur yn rhoi trosolwg o gostau'r rhaglen waith ac yn amlygu rhai o'r problemau a wynebwyd fel asbestos a newidiadau mewn rheoliadau.

Trafododd y Pwyllgor y gwaith oedd wedi'i wneud a chododd nifer o bwyntiau oedd yn cynnwys:

- yr angen am fod yn rymus gyda chontractwyr i sicrhau gwerth ac effeithiolrwydd;
- cwestiynau am y £500k y flwyddyn sy'n cael ei wario ar welliannau amgylcheddol; a'r
- anhawster a welwyd wrth ymgysylltu â thenantiaid ac wrth gyflawni WHQS mewn mannau lle nad oes cymdeithasau tenantiaid.

Dyraniadau Tai a Pheilot Gosod ar sail Dewis

Eglurodd yr HHS i'r Pwyllgor sut roedd adolygiad o'r polisi Dyrannu Tai wedi arwain at archwilio'r system, gan symud o broses aneffeithiol a biwrocraidaidd ddiangen o weinyddu ceisiadau i system ddyrannu gyda mwy o ffocws wedi'i seilio ar fframwaith sgorio ar sail pwyntiau sy'n fwy effeithiol wrth nodi angen blaenoriaethu. Roedd polisi peilot newydd hefyd wedi'i ddatblygu fyddai'n defnyddio ystod o offer i farchnata eiddo 'anodd eu gosod' gyda thargedau mwy manwl a byddai'r polisi'n cael ei adolygu ar ôl 6 a 12 mis i ddechrau ei weithredu.

Amlygodd y Cynghorydd T.R. Hughes, er bod ceisiadau am dai yn llawer mwy na'r nifer o eiddo oedd ar gael, mae nifer o eiddo'n dal yn wag. Cydnabuwyd hyn fel problem sylweddol ac eglurodd yr HHS fod adroddiadau'n cael eu

Ilunio bob wythnos am eiddo gwag er mwyn eu gwneud ar gael cynted ag sy'n bosibl. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd hefyd y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i gynnal cysylltiadau lleol wrth ddyrannu tai ond mai un agwedd oedd hyn wrth ddyrannu eiddo. Hefyd, roedd y Pwyllgor yn cofrestru'r angen am reoliad mwy llym a monitro manylach o ddarpariaeth eiddo'r Cyngor i sicrhau dyraniad effeithiol.

Cytundeb Tenantiaeth

Hysbyswyd y Pwyllgor bod cytundeb a llawlyfr tenantiaeth newydd i'w ddrafftio i gymryd lle'r cytundebau tenantiaeth presennol ar gyfer tenantiaeth gyflwynol a sicr nad oedd wedi'u hadolygu ers 1996. Cynhelir ymgynghoriadau ar y cyd gyda phrif fudd-ddeiliaid gan gynnwys tenantiaid, cynghorwyr lleol, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cefnogi gyda'r targed o gael cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Rhagfyr 2012 i'w weithredu ym mis Chwefror 2013. Byddai'r cytundeb tenantiaeth newydd yn cydymffurfio gyda safonau deddfwriaethol presennol ac yn egluro cyfrifoldebau'r ddwy ochr yn well. Cadarnhaodd yr HHS y byddai ymarfer proffilio tenantiaid yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn sefydlu a oedd tenantiaid presennol yn byw mewn eiddo addas i'w hamgylchiadau presennol.

Perfformiad ôl-ddyledion Rhent y Gwasanaethau Tai

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn dangos siart o berfformiad y Cyngor wrth gasglu ôl-ddyledion rhent gan denantiaid sy'n b yw mewn eiddo'r Cyngor ac yn nodi'r heriau a allai effeithio'n negyddol ar gasglu rhent fel y newidiadau oedd wedi'u trefnu ar gyfer budd-daliadau tai a'r cynnydd o 5.65% mewn lefelau rhent mewn eiddo sy'n eiddo i Gyngor Dinbych. Gosodwyd ôl-ddyledion tenantiaid ar 1.68% o gyfanswm debyd 2010/11, oedd yn chwartz uchaf Cymru, ac ôl ddyledion go iawn ar gyfer 2010/11 oedd £189,932, o fewn y targed o £200,000 ac yn cynrychioli gostyngiad mewn lefelau ôl-ddyledion go iawn am y bumed flwyddyn yn ddilynol.

Prosiect Un Llwybr Sengl i Dai (SARTH) Project

Cyflwynodd yr HHS adroddiad ar y prosiect Un Llwybr Sengl i Dai (SARTH) oedd yn brosiect ar y cyd ar raddfa fawr fyddai'n cydlynu'r fframweithiau dyrannu tai amrywiol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ac yn caniatu i'r broses ddyrannu fod yn fwy effeithiol i'r ymgeiswyr a'r darparwyr. Eglurwyd sut roedd y galw am dai yn llawer mwy na'r nifer o eiddo sy'n cael eu gosod gan un o'r awdurdodau lleol partner a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs), a rhoddwyd enghreifftiau o'r problemau a'r anghysonderau oedd yn wynebu ymgeiswyr. Rhagwelwyd y byddai fframwaith dyrannu tai diwygiedig yn cynnig system fwy effeithiol a thryloyw i'r rhai oedd yn disgwyl eiddo a byddai'n canolbwyntio ar hybu dewisiadau eraill i'r ymgeiswyr oedd yn weddill heb lawer o obaith am gael tai'n uniongyrchol. Trefnwyd ymgynghoriad gyda phartneriaid mewn awdurdodau lleol eraill, cymdeithasau tai a Phrifysgol Glyndwr dros y 18 mis nesaf lle bydden nhw'n cytuno ar fframwaith dyrannu cyffredin.

Rhagwelwyd y byddai cost y prosiect yn £394,955 dros gyfnod o 4 blynedd a chyflwynwyd cais i Lywodraeth Cymru am ariannu'n rhannol gyda'r costau oedd yn weddill yn cael eu dosbarthu'n gyfartal rhwng y partneriaid eraill. Ychwanegodd yr HoFA y byddai cydweithio yn y maes hwn yn hanfodol a'i bod yn bwysig symud ymlaen gyda'r prosiect hyd yn oed os na ellid cael arian gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn trafodaeth fanwl:

PENDERFYNWYD –

- (a) nodi'r cynnydd a wnaed ym mhob un o'r meysydd oedd ym manylion yr adroddiad;*
- (b) cefnogi'r cynlluniau a luniwyd i wella gwasanaethau yn y meysydd hyn ac amcanion y prosiect Un Llwybr Mynediad Sengl i Dai (SARTH); a*
- (c) bod y Cytundeb a'r Llawlyfr Tenantiaeth drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ei ystyried cyn ei gyflwyno i'r Cabinet yn ddiweddarach yn 2012*

10. GWASANAETHAU LLYFRGELL

Cyflwynodd y Pennaeth Llyfrgelloedd, Archifau a'r Celfyddydau (HLAA) adroddiad oedd wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod yn rhoi manylion perfformiad Gwasanaeth Llyfrgell y Cyngor fel y penderfynwyd gan asesiad Cyfarwyddwr CyMAL (Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru). Dangosodd yr asesiad fod Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych wedi perfformio yn y chwarter isaf o safbwynt pedwar dangosydd perfformiad, ac roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi gofyn am gael adroddiad i egluro darganfyddiadau'r asesiad.

Eglurwyd bod yr asesiad yn cynnwys mesur o berfformiad yn erbyn 14 safon ac 20 dangosydd perfformiad. Roedd Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych wedi cyflawni 8 safon, wedi cyflawni 3 safon yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 3 safon oedd yn is na chyfartaledd Cymru o gyflawni 9 safon. O'r tri safon nad oedd wedi'u cyflawni, roedd yr un yn ymwneud â gwariant ar stoc llyfrgell ers hynny wedi rhagori ar y targed gan fod y trothwy'n awr wedi'i ostwng. Roedd yr un peth yn wir am y targed ar gyfer ailgyflenwi'r stoc benthyg, tra bod lefel y staffio i bob 1,000 o boblogaeth o fewn 0.02% i gyflawni'r safon o 0.37%.

Roedd y Gwasanaeth Llyfrgell yn perfformio'n uwch na chyfartaledd Cymru mewn 13 o'r 20 dangosydd, ffaith a gydnabuwyd gan CyMAL, gan gynnwys bod â'r nifer uchaf o gyfranogwyr i bob 1,000 poblogaeth mewn digwyddiadau yn y Llyfrgelloedd. Ystyriwyd pedwar dangosydd yn y chwarter isaf gyda pherfformiad is na'r cyfartaledd o safbwynt gwariant y gwasanaeth llyfrgell ar lyfrau a'r canran o oedolion oedd yn meddwl bod cyfleusterau cyfrifiadurol yn dda iawn, yn dda neu'n ddigonol. Nodwyd, er waetha'r diffyg cymharol o wariant ar lyfrau, bod Sir Ddinbych yn 5ed o safbwynt y nifer o lyfrau a fenthyciwyd a hefyd bod pob cyfrifiadur at ddefnydd y cyngor wedi'i amnewid ers yr arolwg. Roedd y dangosyddion eraill oedd yn y chwarter isaf yn ymwneud â'r canran o ddefnyddwyr oedd yn meddwl bod y dewis o lyfrau oedd ar gael yn dda iawn, yn dda neu'n ddigonol a'r canran o ddefnyddwyr oedd yn fodlon bod adeiladau'r llyfrgelloedd yn cynnig

amgylchedd deniadol. Roedd y ddau ddangosydd hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol felly dywedwyd bod y safleoedd braidd yn ddiystyr ac nad oedd angen pryderu llawer pan oedd perfformiad llyfrgelloedd ar draws Cymru mor gryf.

Cyhoeddwyd Pedwerydd Fframwaith Asesu ar gyfer awdurdodau llyfrgell ar gyfer y cyfnod 2011-14, a byddai Datganiad Blynyddol Sir Ddinbych ar gyfer 2011/12 yn cael ei gyflwyno i CyMAL ym mis Gorffennaf 2012.

Derbyniodd y Pwyllgor fod y safonau a'r dangosyddion nad oedd wedi'u cyflawni wedi'u hegluro'n foddhaol iddyn nhw ac roedden nhw'n cydnabod bod y ffactorau oedd yn hysbysu'r ystadegau a'r gwelliannau wedi digwydd ers hynny. Yna, cododd yr aelodau nifer o gwestiynau'n ymwneud â darparu gwasanaethau llyfrgell yn Sir Ddinbych. Gofynnodd y Cynghorydd G.C. Evans a oedd rhywun wedi ymgysylltu gyda'r trigolion oedd cynt wedi elwa o'r gwasanaeth llyfrgell symudol ers terfynu'r gwasanaeth. Dywedwyd wrth y pwyllgor bod trigolion anabl yn gallu defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell cartref a gynigir yn awr, lle'r oedd nifer o'r trigolion yn defnyddio'r gwasanaeth symudol hefyd yn defnyddio'r prif adeiladau llyfrgell hefyd. Tynnodd y Cynghorydd Evans sylw at y ffaith fod y system bwcio ICT ar y rhyngwyd yn anodd ei defnyddio. Dywedodd yr HLAA fod y system wedi'i diweddaru'n ddiweddar ond bod problemau band llydan yn cael eu hymchwilio.

Roedd y Pennaeth Cynllunio Busnesau a Pherfformiad yn amau ble'r oedd arian yn cael ei wario os nad oedd targedau cenedlaethol ar gyfer gwario ar lyfrau ac ar staff wedi'u cyflawni. Priodolwyd hyn i gost cynnal adeiladau llyfrgell ond roedd y gwasanaeth yn gweithio gydag adran gyllid Sir Ddinbych er mwyn nodi arbedion posibl.

Gofynnodd y Cynghorydd M.L. Davies am ddyfodol llyfrgelloedd canolog yn awr gan fod llyfrau ar gael mor hawdd yn electronig. Ond, dywedwyd bod benthyg ar draws Cymru'n cynyddu. Awgrymodd y Cynghorydd Davies hefyd fod trefniadau ar gyfer rhannu llyfrau rhwng awdurdodau lleol yn cael eu hymchwilio. Cadarnhaodd yr HLAA fod y Gwasanaeth ar fin lansio gwasanaeth benthyg e-lyfrau.

PENDERFYNWYD –

- a) nodi darganfyddiadau asesiad CyMAL a chadarnhawyd boddhad gyda'r camau a gymerwyd i ddelio â'r targedau nad oedd wedi'u cyflawni yn 2010/11; a*
- b) bod copi o'r Datganiad Blynyddol ar gyfer 2011/12 yn cael ei gyflwyno fel adroddiad gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar ôl ei anfon at CyMAL a bod copi hefyd ar gael i'r rhai sy'n ymwneud â'r broses Herio Gwasanaethau ar yr un pryd*

11. RHAGLENNI GWAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen waith y dyfodol a rhoddodd ddiweddariad ar faterion perthnasol.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod yr Asesiad Hunanwerthuso ar effeithiolrwydd swyddogaeth Craffu'r Cyngor yn cael ei lunio yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd yr holiaduron ar 9 Mawrth. Byddai'r canlyniadau'n hysbysu'r Adroddiad Craffu Blynnyddol fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor newydd ym mis Mai.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr adroddiadau gwybodaeth yn ymwneud ag adolygiad Gwasanaeth Caeth i'r Tŷ'r Gwasanaeth Llyfrgell, ac am y potensial i sicrhau bod gofod gwag mewn llyfrgell ar gael i'w logi i elusennau a sefydliadau eraill, yn cael eu cynnwys yn y Briff Gwybodaeth a ddosbarthwyd i aelodau'r Pwyllgor. O safbwynt yr olaf, nododd y Pennaeth Llyfrgelloedd, Archifau a Chelfyddydau (HLAA) nad oedd unrhyw sefydliad wedi cyflwyno unrhyw gais o'r fath iddo.

Dywedodd y Cydlynnydd Craffu wrth y Pwyllgor mai'r cyfarfod nesaf ar 5 Ebrill fyddai cyfarfod olaf y Pwyllgor yn ei gyfansoddiad presennol cyn ethol y Cyngor newydd. Dim ond dwy eitem oedd wedi'u nodi ar gyfer y cyfarfod, felly gofynnwyd i'r Pwyllgor awgrymu eitemau ychwanegol ar gyfer yr agenda ac yn dilyn yr argymhelliad am graffu pellach ar apeliadau cynllunio a gorfodi cynllunio, ynghynt yn y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor fod adroddiadau ar y materion hyn yn cael eu cyflwyno i'w craffu yn y cyfarfod nesaf.

Awgrymodd y Cynghorydd T.R. Hughes fod eitem ar drwyddedu tacsis yn cael ei hystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor y gellid ymgorffori'r mater i raglen adolygiad Archwilio Mewnol sydd wedi'i raglenni ar gyfer y dyfodol. Byddai darganfyddiadau hwn yn cael eu hadrodd yn ôl wedyn i'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol. Os byddai unrhyw fater neu bryder difrifol yn cael ei amlygu yn narganfyddiadau'r adolygiad, gallai'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol ofyn i graffu edrych arnyn nhw'n fanwl a monitro'r cynnydd wrth weithredu argymhellion cysylltiol.

PENDERFYNWYD – o wneud y newidiadau uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith Ymlaen fel yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r: Pwyllgor Craffu Perfformiad

Dyddiad y Cyfarfod: 5 Ebrill 2012.

Swyddog / Aelod Arwain: Y Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddio

Awdur yr Adroddiad: Rheolwr Cydymffurfio a Rheoli Datblygiad

Teitl: Dadansoddi Apeliadau Cynllunio 2011/12

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Yn yr adroddiad, dadansoddir yn fanwl yr holl benderfyniadau a wnaethpwyd am apeliadau cynllunio o fis Ebrill 2011 hyd yma.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod am berfformiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol mewn apeliadau cynllunio fel y gall yr Aelodau graffu ar yr achosion unigol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n ystyried yr adroddiad ac yn sôn am unrhyw faterion cysylltiedig â pherfformiad.

4. Manylion yr adroddiad

Cefndir

Gellir cyflwyno apêl Cynllunio os bydd Cyngor Sir Ddinbych, fel Awdurdod Cynllunio Lleol, yn gwrthod cais cynllunio. Gall penderfyniad felly i wrthod gael ei wneud gan Bwyllgor Cynllunio/Cyngor Llawn neu gan Swyddogion o dan ddarpariaethau ein Cynllun Dirprwyo a fabwysiadwyd. Mae'r Cynllun Dirprwyo cyfredol ynghlwm yn **Atodiad 1**.

Gellir gwrandao apeliadau cynllunio gan ddefnyddio un o dri dull, a nodir isod:-

- **Sylwadau Ysgrifenedig** – Cyfnewid datganiadau rhwng y Cyngor a'r apelydd trwy'r Arolygiaeth Gynllunio. Syml a chyflym fel arfer, gan gostio cyn lleied â phosibl i'r naill ochr neu'r llall.
- **Gwrandawriad Anffurfiol** – Cyfnewid datganiadau rhwng y Cyngor a'r apelydd gyda thrafodaeth o amgylch bwrdd â'r Arolygydd Cynllunio wedi'i threfnu dros 1 diwrnod. Caiff y ddwy ochr ymgeisio am gostau ac mae'n golygu amser ychwanegol i'r Swyddog/Aelod fynd i wrandawriad gydol dydd.
- **Ymchwiliad Cyhoeddus** – Cyfnewid datganiadau a phrofion tystiolaeth rhwng y Cyngor ac apelyddion gydag Ymchwiliad ffurfiol

wedi'i drefnu gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae cynrychiolaeth gyfreithiol yn ofynnol i Ymchwiliadau gan fod tystiolaeth yn cael ei chroesholi. Gall fod yn gostus gan fod angen cyfreithiwr ac am fod yr apeliadau'n gallu para 3 neu 4 diwrnod.

Yn ddiweddarach, bu Cyngor Sir Ddinbych yn ymwneud â **Gwasanaeth Apeliadau Deiliaid Tai**. Sefydlwyd y broses beilot hon er mwyn gwrando'n gyflymach achosion apêl symlach megis estyn cartrefi. Ni chyfnewidir datganiadau yn y broses hon ond mae'r Arolygiaeth yn gwneud penderfyniad ar sail y cais cynllunio a gyflwynwyd ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill fel adroddiad ein Pwyllgor neu Swyddog Dirprwyedig.

Byddai'r Cyngor yn amlwg yn ceisio amddiffyn unrhyw benderfyniad a wna i wrthod ac yn gobeithio bod yr Arolygiaeth Gynllunio'n **gwrthod** apêl yr apelydd. Weithiau, fodd bynnag, am amryw resymau, mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n **caniatáu** apêl. Mae'n bwysig, felly, y gallwn ni ddadansoddi'r penderfyniadau apelio hynny i weld a oes unrhyw wersi i'w dysgu gan Swyddogion, Aelodau a phartion allweddol eraill fel Cyngorau Tref a Chymuned yn y broses apelio.

Ni all y Cyngor ragweld sawl apêl cynllunio fydd yn cael ei chyflwyno yn ystod y flwyddyn gan mai'r ymgeisydd sy'n penderfynu bob amser a fydd yn cyflwyno apêl. Dengys y tabl canlynol nifer y penderfyniadau apelio ers 2007:-

Apeliadau Cynllunio	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12 hyd yma
Nifer y penderfyniadau apelio	34	21	25	30	18

Mae nifer cyffredinol y ceisiadau cynllunio a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi lleihau yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae canran y ceisiadau hynny a wrthodwyd wedi aros yn weddol gyson, sef rhyw 10% yn unig o'r penderfyniadau a wneir. Dylai nifer y gwrthodiadau roi arwydd o nifer yr apeliadau a all gael eu cyflwyno ond nid yw mor syml â hynny. Mae ffactorau fel y math o gynnig, hanes cynllunio, polisiau cynllunio a chefnogaeth Swyddog a chymuned i apêl, yn dylanwadu i gyd ar y gallu i gyflwyno apêl.

Dylai'r Cyngor geisio sicrhau bob amser fod unrhyw benderfyniad a wna i wrthod cais cynllunio yn gadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth. I'r perwyl hwn, ymdrechwyd i leihau'r risg bod penderfyniadau gwrthnysig posibl yn cael eu gwneud gan y Cyngor. Mae gwell cyfathrebu rhwng Swyddogion ac Aelodau yn ystod y broses cais cynllunio, hyfforddiant cysylltiedig â chynllunio i Aelodau a Chynghorau Tref/Cymuned a phroses Apeliadau Cynllunio gyd-drefnus wedi bod yn ddefnyddiol i'r Cyngor er mwyn osgoi risgiau dyfarnu costau yn erbyn y Cyngor. Fodd bynnag, mewn proses ddemocratig, mae bob amser rhywfaint o risg y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n gwneud penderfyniadau sy'n groes i farn y Cyngor.

Dadansoddi Apeliadau 2011/12

Mae **Atodiad 2** i'r ddogfen yn dadansoddi pob un o'r 18 penderfyniad apelio a gafodd y Cyngor ers mis Ebrill 2011 hyd yma. Mae rhai ffigurau allweddol o'r dadansoddiad hwnnw wedi'u gosod mewn pwyntiau bwled o dan y tabl.

Mae **Atodiad 3** i'r ddogfen wedyn yn dadansoddi'n fanylach bob achos apêl penodol, gan amlygu materion perthnasol a rhai gwersi a ddysgwyd. Ni fwriedir i'r dadansoddiad ddsbarthu unrhyw fai am rai penderfyniadau ond gellir ei ddefnyddio i amlygu meysydd Polisi cynllunio allweddol y gall fod angen eu harchwilio ymhellach neu i adnabod gofynion hyfforddiant.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

